Cynulliad Cenedlaethol Cymru
National Assembly for Wales

Finance Committee
Y Pwyllgor Cyllid

Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1NA

28 Mawrth 2014

**Gwahoddiad i roi tystiolaeth – Ymchwiliad i arfer orau mewn prosesau cyllidebol**

Ar ôl cyhoeddi adroddiad y Comisiwn ar Ddatganoli yng Nghymru ar Ran 1 o'i gylch gwaith, sef *Grymuso a chyfrifoldeb: pwerau ariannol i gryfhau Cymru*, cyhoeddodd Llywodraeth y DU *Grymuso a chyfrifoldeb: datganoli pŵer ariannol i Gymru*. Dyma'r prif bwyntiau yng nghyhoeddiad Llywodraeth y DU:

- **Treth incwm**: yn amodol ar gynnal refferendwm yng Nghymru, byddai'r Cynulliad a Llywodraeth Cymru yn cael y pŵer i amrywio treth incwm ar y gyfradd sylfaenol, uwch ac ychwanegol, gan godi neu ostwng y cyfraddau hyn yr un pryd. Byddai hyn yn golygu na fyddai 10 pwynt canran o bob cyfradd dreth yn y DU bellach yn ddyledus i Lywodraeth y DU ond, yn hytrach, byddai'n ddyledus i Lywodraeth Cymru.

- **Treth dir y dreth stamp**: byddai'r dreth tirlenwi yn cael ei datganoli i'r Cynulliad, gyda swm cyfatebol yn cael ei dynnu o'r grant bloc.

- **Ardrethi annomestig (busnes)**: Bydd Llywodraeth y DU yn gweithio gyda Llywodraeth Cymru i ddatganoli ardrethi annomestig (busnes) yn llawn. (Er bod Gweinidogion Cymru eisoes yn pennu'r cyfraddau hyn yng Nghymru, o dan y trefniadau presennol nid yw'r refeniw a gynhyrchir yn effeithio'n uniongyrchol ar lefel y cyllid sydd ar gael i Lywodraeth Cymru).

- **Pwerau benthyca cyfalaf**: Mae Llywodraeth y DU wedi derbyn mewn egwyddor y gallai Llywodraeth Cymru gael pwerau benthyca cyfalaf er mwyn buddsoddi mewn

Ffon / Tel: 029 20 898120
E-bost / E-mail:
FinanceCommittee@wales.gov.uk

seilwaith, ar yr amod bod ffrwd annibynnol a phriodol o refeniw ar gael i dalu'r costau benthyca.

- Pŵer i'r Cynulliad ddeddfu, gyda chytundeb Llywodraeth y DU, i gyflwyno **trethi newydd a chredydau treth cysylltiedig.**

Yn dilyn hyn, cyhoeddwyd Bil Drafft Cymru ym mis Rhagfyr 2013, a chyflwynwyd Bil Cymru ar 20 Mawrth 2014. Bydd ymchwiliad y Pwyllgor yn ystyried arfer orau mewn prosesau cyllidebol i sicrhau bod prosesau effeithiol ar waith i graffu ar y pwerau ariannol hyn.

Bydd dwy ran i'r ymchwiliad a byddai'n ddefnyddiol pe baech yn ymdrin â'r ddwy ran wrth ymateb.

## Cylch gorchwyl yr ymchwiliad

Ystyried:

Rhan 1 – arfer orau mewn prosesau cyllidebol a'r modd y gellir ei gymhwyso yng Nghymru

- Arfer orau ryngwladol ar gyfer atebolrwydd ariannol a phrosesau cyllidebol, yn enwedig mewn gweinyddiaethau datganoledig
- Cyfleoedd i'r prosesau cyllidebol gynnwys cysyniadau newydd – fel gwariant ataliol, cyllidebau blynyddol llai cyfyngedig, a chyllidebau seiliedig ar raglenni / canlyniadau

Rhan 2 – cynllunio gweithdrefnau cyllidebol newydd a'u rhoi ar waith

- Rheolaeth ariannol – amlinellu dulliau cyllidebol o reoli'r pwerau newydd o ran trethi a benthyca, a sut y bydd y rhain yn effeithio ar floc Cymru ac economi Cymru. Yn benodol, sut y caiff argymhellion Comisiwn Holtham eu rhoi ar waith.
- Rhoi gweithdrefnau cyllidebol newydd ar waith i adlewyrchu'r pwerau ychwanegol.

## Eich barn chi

Hoffai'r Pwyllgor gael eich barn am y meysydd a ganlyn:

### *Rhan 1*

- **Arfer orau ryngwladol** – beth yw egwyddorion atebolrwydd ariannol? Sut y mae gwledydd eraill yn sicrhau atebolrwydd ariannol datganoledig gan barhau i fod â rheolaeth ariannol ganolog?
- **A yw'r pwerau datganoledig wedi'u haddasu ar gyfer setliad datganoli Cymru** – gan fod y pwerau ym Mil Cymru wedi'u seilio ar y pwerau yn Neddf yr Alban, a yw hyn yn creu problemau yng Nghymru na chawsant eu rhagweld?
- **Cysylltu cyllidebau â chanlyniadau.** Pa brosesau cyllidebol newydd sydd eu hangen i wella'r cysylltiadau rhwng polisïau, rhaglenni gwariant a chanlyniadau? Sut y byddai modd gwahaniaethau rhwng y canlyniadau a gynhyrchwyd gan Lywodraeth y DU a'r economi fyd-eang a'r canlyniadau a gynhyrchwyd gan bolisïau lleol Llywodraeth Cymru?

*Rhan 2*

- **Trethi a benthyca** - nodwyd y materion hyn yn Adroddiad Holtham; e.e. effaith y grant bloc a'r dulliau o fynegeio addasiadau; sail y threthi datganoledig; diffyg terfyn isaf yn seiliedig ar anghenion; dim penderfyniad clir ar faterion cydgyfeirio; maint y trethi a gynhyrchir a faint y gellir ei fenthyca yn erbyn yr incwm hwn; ar ba sail y bydd unrhyw drethi newydd yn cael eu codi ac a fyddant yn cael eu seilio ar egwyddorion ynteu reolau?
- **Rheoli risgiau cyllidebol** – pa risgiau cyllidebol ychwanegol sydd ynghlwm wrth y pwerau newydd a sut y caiff y rhain eu monitro a'u rheoli (e.e. sut y caiff diffygion refeniw eu rheoli)?
- **Sut y caiff y prosesau cyllidebol newydd hyn eu gwneud yn dryloyw ac yn ddealladwy** i'r holl randdeiliaid, a sut y gall rhanddeiliaid fod yn rhan o'r broses gyllidebol.
- **Cynllunio cyllideb y DU** - sut y mae'r Cynulliad yn gweithio gyda Llywodraeth y DU a chyrff cyhoeddus eraill o dan y trefniadau newydd; sut y dylid amserlennu'r broses gyllidebol i ateb gofynion Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y DU (e.e. adolygiadau o wariant y DU) ?

- **Gweithredu** – sut y mae'r Cynulliad yn datganoli pwerau ariannol yn ffurfiol; sut y mae'r Cynulliad yn craffu ar ofynion Llywodraeth Cymru o ran trethi, benthyca a gwariant, ac yn eu cymeradwyo a'u monitro; a sut y mae Llywodraeth Cymru yn ceisio cymeradwyaeth Trysorlys Ei Mawrhydi ar gyfer pwerau newydd i godi trethi ac i fenthyca, a pha rôl a ddylid ei rhoi i'r Cynulliad wrth gytuno â newidiadau o'r fath.

**Darparu gwybodaeth i'r Pwyllgor**

Rydym yn eich gwahodd i gyflwyno tystiolaeth ysgrifenedig i Glerc y Pwyllgor Cyllid, gan ddefnyddio'r cyfeiriad a nodir uchod, erbyn **dydd Gwener 2 Mai 2014**.

Os yw'n bosibl, anfonwch eich ymateb drwy'r e-bost i PwyllgorCyllid@cymru.gov.uk erbyn **dydd Gwener 2 Mai 2014**.

**Datgelu Gwybodaeth**

Mae polisi'r Cynulliad ynghylch datgelu gwybodaeth i'w weld yma. Gofalwch eich bod yn ystyried y manylion yn ofalus cyn cyflwyno gwybodaeth i'r Pwyllgor. Neu, mae copi caled o'r polisi hwn i'w gael drwy gysylltu â'r Clerc (02920 898120).

Mae rhagor o wybodaeth am y Pwyllgor Cyllid ar gael yma.

Yn gywir



**Jocelyn Davies**
**Cadeirydd**
**Y Pwyllgor Cyllid**